

Polisi Geirda Cyflogaeth

Cynnwys

1	Rhoi geirda cyflogaeth	1
2	Caniatâd i roi geirda cyflogaeth.....	2

1 Rhoi geirda cyflogaeth

- 1.1 Bydd Ombwdsmon Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru (OGCC) yn rhoi geirda cyflogaeth i gyn-aelodau o staff yn yr amgylchiadau canlynol:
 - mae'r cyn-aelod o staff wedi rhoi caniatâd i'r geirda
 - mae'r geirda yn ffeithiol
 - daw'r geirda gan y sefydliad ac nid yw'n eirida cymeriad a ddarparwyd gan unigolyn.
- 1.2 Bydd geirdaon cyflogaeth gan OGCC yn cael eu rhoi gan y Gwasanaeth Corfforaethol/ AD yn unig.
- 1.3 Bydd y geirda cyflogaeth yn cynnwys y wybodaeth ffeithiol ganlynol yn unig:
 - cyfnod cyflogaeth
 - sefyllfa wrth ymadael
 - cyflog sylfaenol y flwyddyn (gan gynnwys y cyflog cyfwerth ag amser llawn os oedd yr unigolyn yn gweithio'n rhan amser)
 - rheswm dros ymadael.
- 1.4 Os hoffai Rheolwyr roi geirda (cymeriad) personol, dylent wneud hyn drwy eu cyfeiriad e-bost personol neu'n ysgrifenedig. Fodd bynnag, ni ddylent ddefnyddio papur pennawd OGCC. Wrth roi geirda, rhaid i reolwyr ei gwneud hi'n glir mai barn bersonol yw'r geirda, nid barn OGCC.
- 1.5 Nid yw'r polisi hwn yn rhan o'r contract cyflogaeth ac mae modd iddo gael ei ddiwygio ar unrhyw adeg. Hefyd, gall OGCC amrywio'r weithdrefn fel sy'n briodol mewn unrhyw achos.
- 1.6 Cytunwyd ar y polisi a'r weithdrefn hwn ar ôl ymgynghori â Chyngor Cynrychiolwyr Staff. Mae'r polisi yn berthnasol i'r holl staff beth bynnag fo'u statws neu hyd gwasanaeth. Dim ond ar ôl ymgynghori â Chyngor Cynrychiolwyr Staff y gwneir newidiadau sylweddol i'r polisi hwn.

2 Caniatâd i roi geirda cyflogaeth

- 2.1 Rhaid i OGCC dderbyn caniatâd y cyn-aelod o staff cyn rhoi geirda cyflogaeth.
- 2.2 Mae'r holiadur ymadael, y gofynnir i bob aelod o staff ei lenwi cyn ymadael, yn cynnwys adran iddynt ei harwyddo i gadarnhau eu cytundeb. Cyn rhoi geirda cyflogaeth, bydd y Gwasanaethau Corfforaethol/AD yn gwirio bod caniatâd wedi'i roi.
- 2.3 Os na lenwir holiadur ymadael, neu os na roddwyd caniatâd gan y cyn-aelod o staff, bydd y Gwasanaethau Corfforaethol/AD yn cysylltu â'r cyn-aelod o staff i geisio ei ganiatâd i roi'r geirda.
- 2.4 Gellir gwneud hyn naill ai drwy'r cyflogwr neu'r cwmni sy'n ceisio'r geirda, neu'n uniongyrchol â'r cyn-aelod o staff mewn achosion lle cedwir y manylion cyswllt cyfredol.

Gellir anfon unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at rheolipolisi@ombwdsmon.cymru